TAFLEN GYNGOR

# Rheoli Mannau Cymunedol ar gyfer Peillwyr

buglife Cymru




Plannu planhigion plwg © Kate Jones

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddylunio i awdurdodau lleol i'w rannu gyda grwpiau cymunedol sydd â diddordeb gwella mannau gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt gyda ffocws penodol ar ddarparu ar gyfer anghenion peillwyr, yn enwedig o fewn B-Lines. Am gyngor i awdurdodau lleol ar reoli parciau a mannau gwyrdd mwy o faint darllenwch, **Rheoli Parciau a Mannau Gwyrdd ar gyfer Peillwyr**.

## Beth yw B-Lines?

Mae B-Lines yn briffyrdd peillwyr, datrysiad ar lefel tirwedd i wrth-droi'r dirywiad mewn pryfed peillio. Maent yn rhedeg ar hyd a lled cefn gwlad Prydain, trwy drefi a dinasoedd, gan redeg o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin gan gysylltu'r cynefinoedd llawn blodau gwyllt gorau sydd gennym ar ôl.

O fewn coridorau'r B-Lines rydym yn annog pawb i greu cerrig sarn llawn blodau, yn fawr a bach, er mwyn helpu peillwyr a phryfed eraill i deithio'n ddiogel trwy ein tirwedd. Gall amgylcheddau adeiledig a rhai gaiff eu ffermio neu eu rheoli'n ddwys fod yn anodd iawn i bryfed symud trwyddynt gan nad oes bwyd na mannau gorffwys addas. Mae llawer o bryfed yn methu teithio'n bell iawn ac, o ganlyniad, maent yn cael eu dal mewn 'ynysoedd' bychain o gynefin da, gan fethu cytrefu ardaloedd newydd neu ail-gytrefu hen safleoedd. Mae hyn yn golygu y gall cynefinoedd a rhywogaethau fynd yn fwyfwy bregus a thameidiog. B-Lines yw'r ateb hyfryd i gyd-gysylltu'r mannau llawn blodau gwyllt yn ein trefi a'n cefn gwlad er mwyn helpu i atal y dirywiad mewn poblogaethau pryfetach, ac ry'n ni angen eich help chi! Ewch i'n map B-Lines B-Lines - Buglife i weld os yw eich gofod cymunedol yn gorwedd mewn B-Line ac ychwanegwch eich prosiect i'r map!




Rhwydwaith B-Lines y DU. Map rhyngweithiol ar buglife.org.uk

## Cyfranogiad cymunedol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y gymuned leol a'r rheini sy'n helpu i reoli'r datblygiad a chynlluniau ar gyfer y safle cyn gynhared â phosibl. Gwrandewch ar bryderon a barn y bobl, gan ddelio â nhw gyda'ch gilydd a sicrhau bod pawb yn cytuno cymaint â phosibl gyda'r syniad o greu gofod sydd o fudd i natur yn ogystal â'r gymuned leol. Os oes well gan rai o'r grŵp ardaloedd ffurfiol, taclus a bod yn well gan eraill ardaloedd mwy gwyllt, crëwch rywfaint o'r ddau.

Dyluniwch a gosodwch arwydd i egluro bod ardal wedi'i gadael heb ei thorri, nid achos bod neb yn malio, ond i'r gwrthwyneb, oherwydd ei bod wedi'i dylunio i fod o fudd i beillwyr a bywyd gwyllt arall sydd angen llecynnau gwyllt.




Enghraifft o arwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith creu dôl B-Lines.

## Mannau gwyrdd cymunedol

Gall man gwyrdd cymunedol fod cyn lleied â gardd neu ofod gwyrdd ger canolfan gymunedol, gardd eglwys neu grŵp ffydd arall, neu'n barc lleol gwerthfawr a reolir gan bobl leol, yn aml gyda rhywfaint o gymorth y cyngor. Yr hyn fydd ganddynt yn gyffredin yw y gall y mannau hyn gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan bobl leol brwdfrydig.

Mae rheoli mannau gwyrdd cymunedol ar gyfer peillwyr ac infertebratau eraill yn fuddiol hefyd i fywyd gwyllt arall a'r gymuned leol sy'n mwynhau'r mannau hyn. Er y gall mannau cymunedol fod yn amrywiol iawn ac yn aml-ddefnydd, gall gofodau amrywiol fel hyn roi hwb mawr i beillwyr. Mae'r adnodd hwn yn cynnig cynghorion rheoli a syniadau creu cynefinoedd er mwyn mwyafu buddiannau bioamrywiaeth eich gofod.

## Torri gwair er budd peillwyr

Gall **torri llai** a **chlirio torion** gael effaith mawr ar amrywiaeth planhigion a niferoedd blodau, gan effeithio hefyd ar amrywiaeth a niferoedd pryfetach, tra ar yr un pryd leihau costau a maint eich ôl troed carbon.

Bydd blodau gwyllt cyffredin fel blodau menyn, llygaid y dydd, dant y llew, y Feddyges Las, Melynydd a'r Feillionen Wen yn denu pryfed. Beth am ymuno ag ymgyrch "Mai Di-dor" a gweld beth ddaw i'r golwg trwy ddim ond oedi cyn torri? Gallwch ymestyn y cyfnod di-dor hwn trwy'r haf tan ddiwedd Awst neu ddechrau Medi. Os hoffech i'ch gofod cymunedol fod ychydig yn "daclusach", yna torrwch ymyl gyda'r llwybr yn amlach, gan adael ardaloedd talach draw oddi wrth y llwybr. Gallech dorri llwybrau trwy'r tyfiant tal gan wneud patrwm troellog er mwyn denu ymwelwyr i archwilio a darparu llecynnau cysgodol i löynnod byw a phryfetach eraill dorheulo.

Mae ardaloedd o laswellt tal a blodau gwyllt yn darparu hafan ar gyfer mwy na phryfed peillio. Gall draenogod, mamaliaid bychain eraill ac adar y gerddi, fel Adar Duon a bronfreithod, chwilota am fwyd, tra bydd rhinciau sioncod y gwair yn adleisio grŵn y gwenyn. Bydd yr ardaloedd hyn yn allweddol yn ein hafau cynyddol sych a phoeth pryd caiff aml i lawnt ei gadael yn fyr a brown. Os oes gennych le, gallech hyd yn oed greu dôl fechan, gweler 'Glaswelltir' isod. Gall dolydd da gymryd amser i'w cael yn iawn, ond mae'n bleser mawr eu gwylio'n datblygu.

Pan fyddwch yn torri'r gwair, **cofiwch glirio'r torion bob tro**, gan fod blodau gwyllt yn tyfu'n well mewn priddoedd sydd â maeth isel ac mae gadael torion yn golygu, wrth iddynt sychu a phydru, bod y maetholion yn mynd yn ôl i mewn i'r pridd. Os oes gormod o faetholion, gall gweiriau mawr, cystadleuol, dail tafol a Danadl Poethion gymryd trosodd a thagu'r blodau a'r gweiriau manach. Gellir rhoi torion gwair ar domen gompost neu eu gadael mewn cornel.

Os oes gennych ardal ddigon mawr, bydd **gadael clwt bychan o laswellt twmpathog heb ei dorri dros y gaeaf** yn darparu cysgod gwerthfawr ar gyfer infertebratau a mamaliaid bychain sy'n gaeafu a gall cacwn sy'n nythu yn y ddaear eu defnyddio'r haf nesaf. Cofiwch dorri'r ardal hon ar ddiwedd yr haf canlynol a dewiswch ardal newydd i'w gadael i dyfu'n dal; fel hyn bydd wastad lloches ar gyfer infertebratau i ddianc rhag y peiriant torri gwair, a bydd cylchdroi'r ardaloedd hyn yn golygu na fyddant yn dioddef o olyniaeth a throi'n brysgwydd.



Gardd peillwyr Dawley Gardens © Kate Jones

## Ardaloedd gwyllt

Peidiwch anghofio gadael ambell ardal wyllt "aflêr" gyda phlanhigion gwyllt buddiol fel Danadl Poethion, llwyni mwyar duon, ysgall, Efwr, marddanadl a dant y llew. Gall Danadl Poethion yn unig gynnal dros 40 rhywogaeth o bryfetach yn cynnwys llawer o wyfynod a lindys rhai o'n hoff löynnod byw fel y Fantell Goch (*Vanessa atalanta*) a'r Trilliw Bach (*Aglais urticae*). Mae Efwr, ynghyd ag wmbelifferau eraill, fel Gorthyfail, Llysiau'r Angel Pêr a Llysiau'r Gymalwst yn cael eu mwynhau gan lawer o rywogaethau o beillwyr ac yn creu strwythur deniadol mewn ardaloedd gwyrdd. Gall coesau gweigion llwyni mwyar duon a phlanhigion eraill wedi'u torri gael eu defnyddio hefyd fel safle nythu gan wenyn unig bychan, felly peidiwch â thacluso gormod!



Glöyn Gwyn Mawr (*Pieris brassicae*) ar Ysgallen y Maes © Rachel Richards

## Planhigion ar gyfer peillwyr

Blodau gwyllt, coed a llwyni brodorol sy'n tyfu'n lleol fydd ein dewis cyntaf bob tro ar gyfer darparu bwyd ar gyfer peillwyr brodorol a bywyd gwyllt arall. Gwnewch yn siŵr bod planhigion yn blodeuo trwy gydol y flwyddyn, yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref fel bod paill a neithdar ar gael ar gyfer peillwyr o fis Mawrth i fis Hydref.

Dyma rai planhigion sy'n arbennig o boblogaidd gyda pheillwyr. Rydym wedi canolbwyntio ar blanhigion brodorol, tra'n cynnwys ychydig o rai sydd ddim yn frodorol (NN) allai weddu i ardaloedd gerddi ffurfiol.

Mae hefyd yn bwysig holi sut cafodd unrhyw blanhigion y byddwch yn eu prynu ar gyfer eich gofod gwyrdd eu tyfu, ac o ble maen nhw wedi dod.

Gofynnwch am blanhigion sydd heb eu trin â phlaladdwyr, sydd wedi'u tyfu mewn priddoedd di-fawn ac sydd wedi'u tyfu mewn meithrinfeydd yn y DU, gan fod mewnforio planhigion yn helpu i ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Am fwy o blanhigion peillwyr ewch i Plants-for-bees.pdf (buglife.org.uk)

### GWANWYN

Rhowch dro ar helyg, Drain Duon, Coeg-geirios, Drain Gwynion, Cwrens Blodeuog (NN), coed ffrwythau fel Afalau, Gellyg, Eirin a Cheirios. Mewn gwelyau blodau – crafanc-yr-arth (NN), cynfas biws (NN) a Llysiau'r Ysgyfaint (NN). Mewn lawntiau, ymylon llwybrau ac ar hyd glytiau pentrefi mae dant y llew yn boblogaidd iawn gydag amrywiaeth eang o bryfetach, yn cynnwys gwenyn unig y gwanwyn. Er eu bod yn llai niferus, mae Eidral, Carn-yr-ebol a marddanadl yn werthfawr i beillwyr hefyd.

### HYDREF

Mae'r Hydref yn amser pwysig ar gyfer ein peillwyr gan fod breninesau cacwn newydd angen digonedd o fwyd i bara trwy eu gaeafgwsg ac mae gwenyn unig hwyr yn dal i orffen eu nythod. Mae Gwenynen Durio'r Iorwg (*Colletes hederae*) yn wenynen unig sy'n dibynnu ar Iorwg, sy'n blodeuo'n hwyr iawn ac sy'n blanhigyn bwyd pwysig ar gyfer llawer o beillwyr yn cynnwys rhywogaethau o wenyn meirch a phryfed hofran. Mae planhigion cyfeillgar at beillwyr eraill, sy'n blodeuo'n hwyr, yn cynnwys yr Ysgallen Bengron (NN), grug, Tamaid y Cythraul a'r Blodyn Haul (NN).

### HAF

Mae perlysiau'r haf fel Saets, Teim, Rhosmari a Lafant i gyd yn boblogaidd iawn gyda pheillwyr a phobl. Mae planhigion yn nheulu'r ffacbys, yn cynnwys meillion, Eithin Ffrengig, Banadl a phys-y-ceirw, ayyb a theulu llygad y dydd, sy'n cynnwys ysgall, y bengaled, Milddail a'r Llygad Llo i gyd yn boblogaidd iawn hefyd gyda gwenyn a phryfed hofran. Ar gyfer y rhywogaethau tafod hir, rhowch dro ar blanhigion fel Bysedd y Cŵn, cwcwll y mynach (NN), troed y golomen a ffiwsia (NN ac yn gallu bod yn ymledol). Mae pryfed hofran yn hoffi blodau mwy agored fel wmbelifferau (mae Efwr a Llysiau'r Angel Pêr yn boblogaidd) ac mae'r Triaglog Goch (NN ac yn gallu bod yn ymledol) yn ffefryn gan löynnod byw.

### GAEAF

Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, yn enwedig yn y de, bydd ambell rywogaeth o gacwn, fel y Cacwn Cynffon Llwydfelyn (*Bombus terrestris*), yn dal i fod yn fywiog trwy gydol y flwyddyn. Efallai yr hoffech ystyried cynnwys rhywogaethau sy'n blodeuo yn y gaeaf fel Mahonia (NN), Crafanc-yr-arth (NN) a bleidd-dag y gaeaf (NN).









Chwith uchaf: Gwenynbryf Ymyl Dywyll (*Bombylius major*) © Lucia Chmurova, de uchaf: Y Wenynen Grwydrol (*Nomada sp.*) ar rwyddlwyn © Lucia Chmurova
Chwith isaf: Cacynen (*Bombus sp.*) ar lwyn mwyar duon © Rachel Richards, de isaf: Buwch Goch Gota Saith Smotyn (*Coccinella septempunctata*) © Liam Olds

## Glaswelltir

Wrth ichi dorri'r gwair yn llai aml a chlirio'r torion dylech sylwi ar amrywiaeth a niferoedd cynyddol o flodau gwyllt yn dechrau ymddangos, fel y Llygad y Dydd cyffredin, blodau menyn, dant y llew, Meillion Gwyn a Choch, ffacbys, y Feddyges Las, Melynydd a'r peradyl. Efallai y cymer dipyn o amser i flodau ymddangos wrth iddynt ddod i arfer gyda'r newid yn y drefn. Bydd y rhywogaethau a welwch yn dibynnu ar hanes y safle ond mewn nifer o achosion fydd dim angen hau hadau, dim ond newid y patrwm rheoli a bydd blodau gwyllt yn ail-ymddangos. Os yw eich ardal laswelltog wedi ei hau'n flaenorol gyda chymysgedd hadau glaswellt efallai ei bod yn dlawd o ran rhywogaethau felly gallech ei chyfoethogi gyda hadau neu blanhigion plwg blodau gwyllt brodorol, gan eu prynu'n lleol os yn bosibl.

Unwaith ichi greu rhywfaint o ardaloedd moel gan ddefnyddio cribin neu debyg, gellir hau cymysgedd hadau blodau gwyllt cyffredinol i gyfoethogi'r ardal. Mewn ambell achos, efallai yr hoffech gynnal prawf pridd i edrych ar lefelau maetholion fel ffosffad, math y pridd a pH, gan ystyried ffactorau fel pa mor wlyb yw'r safle, y rhywogaethau o flodau gwyllt sy'n tyfu yn eich ardal leol a pha mor aml yr ydych am dorri'r ardal yn dibynnu ar ei defnydd. Ar gyfer ardaloedd byrrach, sy'n cael llawer o ddefnydd, gallech ddefnyddio cymysgedd hadau lawnt sy'n blodeuo'n fyr ac, mewn ardaloedd hirach, gymysgedd dôl blodau gwyllt tal. Gellir defnyddio cymysgedd hadau masnachol, ond dylid osgoi rhywogaethau sydd ddim yn frodorol a blodau unflwydd gorliwgar, fel pabïau a Glas yr ŷd, fydd ond yn blodeuo am dymor byr a fydd angen eu ail-hau'n flynyddol. Efallai y byddai'n bosibl defnyddio hadau blodau o ffynhonnell leol os oes gennych safle blodau gwyllt cyfagos ac y cewch ganiatâd i'w casglu.

Gweler Sheet-3-Wildflower-rich-grassland-creation-1.pdf (buglife.org.uk) am arweiniad pellach ar greu dôl a Sheet-4-Management-of-wildflower-rich-grasslands-for-insects-1.pdf (buglife.org.uk) am gyngor ar reoli glaswelltir.

## Gardd perlysiau i beillwyr

Mae peillwyr, a'r cyhoedd hefyd, yn mwynhau gardd perlysiau wedi'i chynllunio'n dda. Gall lliwiau, arogleuon a strwythurau'r planhigion ddeffro'r synhwyrau a chael effaith therapiwtig, dawelol ar ymwelwyr. Maent hefyd yn gweithio fel atyniad i lawer o beillwyr, y gallwn fwynhau eu gwylio. Gosodwch fainc neu hen foncyff ymysg y perlysiau i annog ymwelwyr i gymryd ennyd i fyfyrio yn ystod eu diwrnod.

Mae planhigion poblogaidd sy'n gyfeillgar at beillwyr ar gyfer gerddi perlysiau'n cynnwys: Lafant, Rhosmari, Teim, Oregano,

Cennin Syfi, Saets, Penrhudd, mintys (er y gall y rhain fod yn ymledol), Persli, Ffenigl a Chwmffri. Mae planhigion o'r teulu garlleg yn boblogaidd gyda gwenyn hefyd a byddant yn ychwanegu lliw a strwythur.

## Coed a llwyni

Cyn ychwanegu mwy o goed a llwyni i'ch safle edrychwch yn fanwl ar yr hyn sydd gennych eisoes a gwerth y planhigion hynny i fywyd gwyllt yn ogystal ag i ymwelwyr. Mae llawer o safleoedd yn cynnal llwyni bythwyrdd sy'n tyfu'n gyflym ac sydd â fawr ddim neu ddim gwerth o gwbl i natur, yn enwedig os ydynt ar hyd ymylon llwybrau ac felly angen eu torri'n rheolaidd sy'n arwain at gynhyrchu dim neu fawr ddim blodau a ffrwythau. Yn ogystal, gallant greu gormod o gysgod i blanhigion isdyfiant a chynnig fawr ddim cyfleoedd nythu i adar. Efallai yr hoffech dynnu rhai o'r llwyni hyn er mwyn lleihau amser rheoli a chostau ac er mwyn agor rhannau eraill o'r safle, gan greu mwy o olau a lle ble gellir ychwanegu planhigion sy'n fwy buddiol.

Cyn plannu, cofiwch ystyried y gofod sydd ar gael i chi, pa mor fawr y bydd planhigion yn tyfu a'r gwaith rheoli y gallwch ei gyflawni. Cofiwch y gall ambell blanhigyn estron dyfu'n oresgynnol a phroblemus iawn mewn cynefinoedd mwy naturiol. Gall rhywogaethau fel rhododendron, y gynffon las a'r cotoneaster ymledu a thyfu'n wir bla oni bai ichi eu cadw dan reolaeth gaeth.

Mae dŵr yn darparu hwb sylweddol i fioamrywiaeth o'i ychwanegu i unrhyw ofod, boed fawr neu fach. Gall pyllau dŵr gynnal nifer eithriadol o fywyd gwyllt ac maent yn cynnig llu o fuddiannau i infertebratau; blodau llawn paill a neithdar ar hyd y glannau, cynefin ar gyfer larfâu dyfrol, ac yn syml le i gael diod. Bydd pwll bywyd gwyllt da yn rhydd o bysgod a heb fod yn rhy ddwfn, gydag ymylon llethrog neu risiog. Gweler Bug-friendly-ponds. pdf (buglife.org.uk) ar greu a rheoli pyllau ar gyfer peillwyr, yn cynnwys lagynau pryfed hofran.

Os oes gennych bwll dŵr eisoes, meddyliwch sut y gallech gyfoethogi ei werth ar gyfer bywyd gwyllt. Gwnewch yn siŵr bod rhediad graddol i'r ymylon i mewn i'r dŵr gyda llystyfiant ar hyd ei lannau yn cynnwys amrywiaeth o blanhigion dŵr blodeuog brodorol. Efallai y bydd rhai o ymylon y pwll wedi'u cysgodi gan lystyfiant ond yn ddelfrydol bydd rhai yn agored a heulog. Os bydd eich pwll cyfan yn llawn llystyfiant efallai y bydd angen ichi glirio rhywfaint ohono, gan osod y llystyfiant yma mewn pentwr wrth ymyl y pwll fel bod infertebratau'n gallu dychwelyd i'r pwll yn hawdd.

Yn yr un modd, os oes gennych ffos neu nant yn rhedeg trwy'r safle efallai yr hoffech ychwanegu planhigion ymylol brodorol a chlirio adran i leihau lleidio. Peidiwch clirio'r ffos neu'r pwll i gyd ar unwaith, fel hyn byddwch yn darparu nifer o wahanol gynefinoedd ar gyfer planhigion a phryfed.

**Mae coed a llwyni brodorol gyda gwerth uchel i fywyd gwyllt, yn enwedig i beillwyr, yn cynnwys:**

- Helyg
- Criafol
- Ceirios
- Afalau
- Drain Gwyn
- Drain Duon
- Eithin Ffrengig
- Banadl
- Rhosynnau
- llwyni Mwyar Duon
- pisgwydd
- Masarn bach
- Iorwg
- Breuwydd
- Llwyni Mafon



Gwenynen yr Iorwg (*Colletes hederae*) ar Iorwg © Rachel Richards

**Planhigion ar gyfer pyllau a ffosydd:**

- Llysiau'r Milwr Coch
- Mintys y Dŵr
- Canwraidd y Dŵr
- Gold y Gors
- Mapgoll Glan y Dŵr
- Briwlys y Gors
- Erwain
- Llysiau'r Angel Pêr
- Pysen-y-Ceirw Fawr



Pryf hofran (*Sericomyia silentis*) © Liam Olds



Torri llai, Climate Action NE © Rachel Richards

## Cynefinoedd nythu ar gyfer peillwyr

Mae ffyrdd gwych i greu cynefinoedd nythu ar gyfer peillwyr, un ai yn gynnil iawn neu trwy greu nodwedd ddeniadol ar gyfer eich gofod gwyrdd, yn dibynnu ar y gofod sydd gennych a gofynion nythu a gaeafu penodol gwahanol rywogaethau.

Mae gadael rhywfaint o ardaloedd o **laswellt twmpathog** heb eu torri o fudd i gacwn sy'n nythu yn y ddaear i'w defnyddio yn yr haf ac i gacwn a phryfed eraill sy'n gaeafgysgu fel sioncod y gwair, pryfed a chorynnod eu defnyddio yn y gaeaf. Bydd llawer o gacwn, rhai gwenyn unig ac infertebratau eraill hefyd yn defnyddio tyllau mewn hen waliau cerrig, felly peidiwch ail-growtio'r rhain ble fo modd, yn enwedig pan maent yn wynebu tua'r de.

Mae **pren marw** yn gynefin arall pwysig iawn ar gyfer llawer o infertebratau. Mae llawer o rywogaethau o chwilod yn dibynnu ar bren marw, gyda gwahanol rywogaethau o chwilod yn hoffi pren o rywogaethau coed penodol.

Bydd gadael boncyffion a brigau o wahanol oed a maint mewn gwahanol leoliadau yn darparu cartref ar gyfer ystod eang o rywogaethau. Pan mae'n ddiogel i wneud hynny, ystyriwch adael pren marw'n sefyll yn hytrach na'i dorri i lawr. Mae rhai rhywogaethau o infertebratau'n arbenigo mewn cynefinoedd pren marw sy'n sefyll. Yna, bydd tyllau bychain a adewir yn y pren gan chwilod, yn enwedig mewn lleoliadau heulog, yn cael eu hail-ddefnyddio gan wenyn a gwenyn meirch unig sy'n nythu. Dewiswch rywfaint o hen foncyffion sy'n llawn tyllau bychain a symudwch y rhain i leoliad heulog i greu eich gwesty gwenyn a gwenyn meirch naturiol.

Mae hyd yn oed **dyllau pwdr** mewn pren marw yn bwysig i beillwyr. Mae'r pyllau bychain o ddŵr allai gronni yng nghesail canghennau neu mewn twll yn y boncyff yn gynefin bridio ar gyfer rhywogaethau rhai pryfed hofran. Byddant yn dodwy ŵy mewn dŵr llonydd ble bydd y larfâu'n byw tan eu bod y barod i ymddangos fel oedolyn.

Chwiliwch am **gynefin nythu gwenyn sy'n bodoli eisoes** ar eich llecyn gwyrdd. Efallai y dewch o hyd i doriadau fertigol bychain wrth ymyl llwybrau troed, unrhyw beth o fodfedd i droedfedd o uchder, neu lecynnau gwastad neu ar oleddf o bridd moel. Bydd yr ardaloedd hyn mewn llecynnau heulog a phan fo'r gwenyn yn weithgar bydd tyllau bychain yn eu datgelu i chi. Ceisiwch gadw'r ardaloedd hyn yn rhydd o brysgwydd a gormod o sathru'n ystod yr haf. Os na chewch hyd i ardaloedd nythu, gallwch greu rhai ar dywod neu bridd moel sy'n draenio'n dda mewn llecyn heulog. Bydd llawer o rywogaethau gwenyn unig yn tyllu i mewn iddo i greu nythod. Os allech chi ddarparu llecyn tawel, yn ddelfrydol yn wynebu'r de ac ar lethr, (gallai fod o amgylch bôn coeden, gwrych neu isadeiledd), sy'n rhydd o lystyfiant a chadw llygad am y tyllau a phentyrrau bychain o dywod. Gallech greu nodwedd amlycach ohono a chreu torlan fawr, gan osod arwyddion i egluro beth yw hwn a pha rywogaethau fyddai'n ei ddefnyddio. Gweler y llyfryn Bee Bank Booklet (buglife.org.uk).

Gellir prynu amrywiaeth o westai gwenyn o amrywiol ffynonellau, ond gall y rhain amrywio o ran ansawdd. Gweler ein llyfryn Bee Hotel Guide (buglife.org.uk) am fwy o fanylion.



Cynefin nythu ar gyfer gwenyn a gwenyn meirch unig © Liam Olds



Cliradain Amlwregysog (*Bembecia ichneumoniformis*) © Liam Old



Pryfed yn cael eu denu at olau stryd © T.Vishwa, FLICKR, trwyddedwyd dan CC BY-SA 2.0

## Ewch yn ddi-gemegion

Gallai ymddangos fel ffordd syml i waredu problem trwy chwistrellu llystyfiant nad oes ei angen gyda chwynladdwyr, er mwyn cael gwared ar glytiau bychain o lystyfiant. Ond gall chwynladdwyr gael effaith gwirioneddol ar ein bywyd gwyllt, felly mae'n bwysig chwilio am ffyrdd eraill o reoli planhigion sy'n tyfu yn y man anghywir. Gallai dim ond eu strimio lawr at y llawr fod yn ateb di-gemegion da. Yn anffodus, gall unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr a ddefnyddir i reoli "problem" benodol achosi llawer mwy o niwed nac a fwriadwyd. Mae ein pryfed peillio angen lle glân, di-gemegion i fyw, bwyta a bridio os ydynt i fyw bywyd iach a llawn a darparu gwasanaethau ecosystem rhad ac am ddim, fel peillio, rheoli plâu ac ailgylchu maetholion.

## Llygredd golau

Elfen sydd ddim yn derbyn cymaint o sylw efallai pan ddaw'n fater o reoli gofodau gwyrdd ar gyfer peillwyr, yw effaith goleuadau. Mae llawer o infertebratau, yn enwedig gwyfynod, chwilod a phryfed, yn cael eu denu gan oleuadau artiffisial, ac mae hyn yn tarfu ar eu symudiadau naturiol yn cynnwys mudo a chwilio am gymar ac yn eu gwneud yn fwy agored i ysglyfaethu, yn enwedig gan ystlumod.

Mae llygredd golau wedi ei gysylltu â'r dirywiad mewn infertebratau, ond mae ein dealltwriaeth o ba mor rymus yw effaith llygredd golau ar infertebratau yn dal i fod yn gyfyngedig. Ond rydym yn sicr yn gwybod ei fod yn un o'r amrywiol resymau am y dirywiad mewn infertebratau ac mae angen inni gyflwyno camau i leddfu hyn. Mae goleuadau, yn naturiol, yn fesur diogelwch pwysig, ond mae camau y gall awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol eu cymryd er mwyn lleddfu yn erbyn effeithiau llygredd golau.

Ble bynnag y bo modd, anelwch am dywyllwch naturiol, gan ddim ond defnyddio golau artiffisial ble bydd ei angen a chyn lleied â phosibl. Dylid cyfeirio goleuadau draw oddi wrth ardaloedd cynefin pwysig, gan osod gorchuddion ar oleuadau stryd er mwyn lleihau 'gollwng' golau a, ble fo modd, ystyriwch ddefnyddio goleuadau synhwyro symudiadau. Mae lliw'r golau a'i effeithiau ar fywyd gwyllt yn fater cymhleth. Yn gyffredinol, dylid osgoi LEDs tonfedd fer (UV a glas), mae lliwiau cynnes yn well felly byddai ychwanegu hidlydd i LEDs yn ddatrysiad da ar gyfer hyn.

**Bydd cynnwys rhai neu bob un o'r awgrymiadau hyn yn cyfoethogi eich gofod gwyrdd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Bydd gwaith ymgysylltu'n lleol, yn cynnwys arwyddion deniadol o safon uchel, yn denu ymwelwyr, bydd amrywiaeth y cynefinoedd a gynigir yn ei wneud yn le cyffrous i blant ei archwilio a bydd y bywyd gwyllt gaiff ei ddenu i'r llecyn yn dod â harddwch a phrysurdeb yr haf hefyd. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.**

R. Richards (2023) Rheoli Mannau Cymunedol ar gyfer Peillwyr



Mae Buglife - The Invertebrate Conservation Trust yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr yn Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough PE2 8AN. Rhif cwmni 4132695. Elusen gofrestredig rhif 1092293. Elusen gofrestredig Yr Alban rhif SC040004.